urdd.org

Datganiad i'r Wasg / Press Release
23 Mehefin 2010

Ceufadwyr yr Urdd yn dychwelyd adref am hoe fach haeddiannol!

Mae tri o Swyddogion gweithgareddau awyr agored Urdd Gobaith Cymru, sydd wedi eu lleoli yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn ger y Bala wedi cyrraedd adref heddiw (dydd Mercher, 23 Mehefin 2010), wedi taith arwrol tair wythnos yn ceufadu o amgylch Cymru. Llwyddodd y tri, **Arwel Phillips, Hefin Perregrine** ac **Alun Pugh** i fordwyo o amgylch glannau Cymru, i'r Afon Ddyfrdwy, i lawr yr Afon Hafren ac yn ôl allan i Fôr Hafren. Dychwelodd y tri i Harbwr Aberystwyth heddiw, yn un darn, ac maent yn edrych ymlaen yn arw i gysgu yn eu gwelyau eu hunain heno!

Yn ystod eu taith 650 milltir lafurus, cysgodd y bechgyn mewn llefydd od a rhyfeddol. Treuliasant un noson mewn twyni tywod, un arall ger camlas, treuliwyd un noson yn cysgu mewn ffatri, yna iard sgrap a noson arall yn cysgu mewn Clwb Hwylio!

"Mae pobl wedi bod yn hynod gefnogol, calonogol a charedig," eglura **Arwel Phillips**, 30 oed, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwersyll Glan-llyn. "Cawsom ein dal nôl am ddiwrnod cyfan wrth ddod o'r Afon Hafren, wrth i ni gychwyn tuag at Gaerdydd, gan bod y gwynt mor gryf. Wrth i ni aros i'r gwynt ostegu, cawsom de cynnes melys gan Wylwyr y Glannau caredig Cas-gwent. Wrth i ni fentro i Fôr Hafren cawsom amser caled wrth wynebu tonnau mawrion â'n ceufadau yn teithio 14 milltir yr awr. Roedd yn brofiad ofnus! Diolch byth roedd y ceufadwr profiadol, Ray Goodwin, sydd eisoes wedi llwyddo i gyflawni'r daith, gyda ni i'n tywys ar hyd y ffordd. Mae'n dyled a'n diolch iddo'n fawr!"

Dioddefodd Arwel o gyflwr ar y traed yn ystod y daith, 'trench foot', cyflwr sy'n cael ei achosi gan leithder ac oerfel. Yn ffodus, ni achosodd broblemau mawr iddo ac fe lwyddodd i barhau â'r daith. Y broblem fwyaf a wynebodd y bechgyn yn ystod eu taith tair wythnos oedd sylweddoli bod y troli sy'n cario'r ceufadau ar y tir wedi cael twll yn ei deiar!

Yn ôl **Alun Pugh**, Uwch Hyfforddwr yng Ngwersyll Glan-llyn: “Rydym yn adrodd straeon ysgafn, ond rydym wedi cael profiad bythgofiadwy wnaiff aros yn y cof am hir. Cawsom rai dyddiau anoddach na’i gilydd, yn enwedig pan roeddem yn nwylo’r elfennau ar y môr. Mae cyrraedd nôl yn ddiogel i Aberystwyth heddiw yn deimlad anhygoel. Mae’r tri ohonom yn flinedig ac mae’n cymalau yn boenus, ond rydym yn ôl ar y tir yn ddiogel, ac wedi llwyddo i gyflawni'r hyn roeddem wedi ei fwriadu. Diolch o galon i bawb a'n cefnogodd ac i bawb sydd wedi ein noddi!”

Prif bwrpas y daith oedd codi proffeil Gwersyll Glan-llyn, a’i diwtoriaid proffesiynol awyr agored Cymraeg eu hiaith. Mae’r ceufadwyr hefyd wedi bod yn codi arian at Ambiwlans Awyr Cymru sy’n cyflawni gwaith arbennig yn ardaloedd gwledig Cymru.

Yn ystod y daith, bu dau o Swyddogion awyr agored newydd Urdd Gobaith Cymru, sy’n cael eu hariannu fel rhan o gynllun ‘Cyrraedd y Brig, Llywodraeth y Cynulliad, yn tiwtora ieuenctid ar sgiliau canŵio a cheufadu ar hyd a lled Cymru. Bu grwpiau bychain o blant a phobl ifanc yn derbyn hyfforddiant arbenigol mewn chwaraeon dŵr, yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â phosibiliadau gyrfaoedd yn y diwydiant awyr agored ac maent wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â chlybiau gweithgareddau awyr agored lleol ledled Cymru.

Yn ôl **Efa Gruffudd Jones**, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru: “Llongyfarchiadau i’r criw ar eu taith lwyddiannus, mae’n wych eu gweld yn ôl yn ddiogel ac yn holliach. Rydym yn falch bod yr Urdd yn gallu hyfforddi a chynnig dewis gyrfa i hyfforddwyr awyr agored Cymraeg eu hiaith, ac rydym yn falch o safon y ddarpariaeth a gynigir yng Nghanolfan Preswyl Glan-llyn gydol y flwyddyn. Rydym yn gobeithio bod y daith wedi tynnu sylw i’r negeseuon pwysig hyn. Credwn bod plant a phobl ifanc yn haeddu gweithgareddau awyr agored o’r radd flaenaf, a gobeithiwn y bydd ein Canolfannau yng Nglan-llyn a Llangrannog yn parhau i feithrin talentau yn y maes hwn.”

Dymuna’r tri ddiolch i’w noddwyr am eu cefnogaeth a’u cymorth yn ystod y sialens. Ymysg y noddwyr mae Magnox North, Coleg Prifysgol y Drindod, Gelert a Urenco.

Am fwy o wybodaeth ar sut i noddi’r tri, neu i holi am unrhyw gyrsiau yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn, cysylltwch ag Arwel Phillips yng Nghanolfan Glan-llyn, arwel@urdd.org neu ffoniwch 01678 541020

diwedd

Am fwy o fanylion, cysyllter â Manon Wyn, 01970 613115, **manonwyn@urdd.org**
neu 07976 330360

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae’r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.

- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.